Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Diogelu
Safeguarding Board

# Stopio Cosbi Corfforol yng Nghymru




## 1 Beth sy'n digwydd?

Ym mis Ionawr 2020, pasiodd y Senedd Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 ("y Ddeddf"). Y nod cyffredinol yw helpu amddiffyn hawliau plant a rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn yng Nghymru. Derbyniodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ar 20 Mawrth 2020, ac yn dilyn hyn bydd ymgyrch gynhwysfawr o ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymgyrch amlgyfrwng i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd, cyn i'r Ddeddf ddod i rym ar **21 Mawrth 2022**. Wedi i'r gyfraith ddod i rym, bydd Cymru yn ymuno â thros 55 o wledydd ledled y byd sydd eisoes wedi gwahardd cosb gorfforol tuag at blentyn.

## 2 Sut mae'r gyfraith yn newid?

Nid yw'r newid yn y gyfraith yn creu trosedd newydd, yn hytrach, mae'n dileu amddiffyniad cyfreithiol 160 mlwydd oed, fel na all gael ei ddefnyddio gan unrhyw un sy'n cael eu cyhuddo o ymosodiad cyffredin yn erbynplentyn.

Dros y blynyddoedd, mae deddfwriaeth wedi cyfyngu ar yr amgylchiadau lle gellid defnyddio'r amddiffyniad, ac wedi cyfyngu ar y lleoliadau lle gellir cosbi plant yn gorfforol. Mae cosb gorfforol wedi'i gwahardd mewn ysgolion, cartrefi plant, cartrefi gofal maeth awdurdodau lleol, a lleoliadau gofal plant. Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn golygu y bydd hefyd yn cael ei gwahardd mewn lleoliadau heb eu rheoleiddio, megis y cartref, am y tro cyntaf.

## 3 Beth yw cosb gorfforol?

Cosb gorfforol yw pan fo grym corfforol yn cael ei ddefnyddio i gosbi plentyn. Er mai smacio sy'n dod i'r meddwl gan amlaf, gall fod sawl ffurf ar gosb gorfforol, gan gynnwys taro, slapio ac ysgwyd. Mae agweddau tuag at gosbi'n gorfforol wedi newid, ac mae llai o rieni a gwarcheidwaid plant ifanc yng Nghymru nawr yn gefnogol o gosb gorfforol. Mae arfer a ystyriwyd yn iawn 30 mlynedd yn ôl yn llai derbyniol heddiw. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yw'r sylfaen ar gyfer polisi Llywodraeth Cymru ar blant. Mae gwahardd cosb gorfforol i blant yn cyd-fynd ag erthygl 19 CCUHP, sef yr hawl i ddiogelu rhag pob math o drais.

## 4 Beth fydd y gyfraith yn ei wneud

Bydd yn dileu amddiffyniad cosb resymol. Mae hyn yn golygu na all unrhyw un gosbi plant yn gorfforol.

Bydd yn rhoi i blant yng Nhymru yr un amddiffyniad cyfreithiol rhag ymosodiad ag oedolion.

Bydd yn cael gwared ar fwlch cyfreithiol, gan olygu na fydd yn bosib defnyddio'r amddiffyniad cosb resymol mwyach mewn lleoliadau heb eu rheoleiddio fel yn y cartref a rhai mannau dysgu, addoli, chwarae neu hamdden.

Bydd yn gwneud y gyfraith yn fwy clir, fel bod plant, rhieni, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd yn deall y gyfraith.

## 5 Yr hyn na fydd y gyfraith yn ei wneud

Ni fydd yn creu trosedd newydd – nid yw'n gwneud mwy na dileu'r amddiffyniad cosb resymol i'r drosedd o ymosodiad cyffredin o dan y gyfraith gyffredin.

Ni fydd yn atal rhieni rhag disgyblu eu plant – mae gwahaniaeth mawr rhwng disgyblu a chosbi'n gorfforol. Gall rhieni ddefnyddio dulliau eraill yn lle cosb gorfforol, fel ffordd o gynnal disgyblaeth a mynd i'r afael ag ymddygiad gwael.

Ni fydd yn ymyrryd â gallu rhiant i fod yn rhiant – gall rhieni, wrth gwrs, ymyrryd yn gorfforol i gadw plentyn yn ddiogel rhag niwed, neu helpu â gweithgareddau dydd i ddydd, fel gwisgo neu hylendid a glendid.

## 6 Beth nesaf?

Yn ystod y cyfnod cyfamserol hwn cyn i'r Ddeddf ddod i rym, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau y bydd y Ddeddf yn cael ei gweithredu yn y ffordd orau bosibl. Mae gwaith yn cael ei gyflawni trwy dri grŵp gorchwyl a gorffen a oruchwylir gan Grŵp Gweithredu Strategol. Bydd y grwpiau hyn yn ystyried sut i fonitro effaith y Ddeddf; prosesau, canllawiau neu hyfforddiant y gallai fod angen eu rhoi ar waith yn dilyn dileu'r amddiffyniad, a pha gymorth ychwanegol fydd ei angen ar gyfer rhieni, os o gwbl, gan gynnwys trwy gynllun dargyfeirio addas. Yn ychwanegol, bydd Grŵp Rhanddeiliaid Arbenigol yn goruchwylio'r gwaith cyfathrebu.

## 7 Pa gefnogaeth sydd ar gael i blant a rhieni?

Mae'r Ddeddf yn rhan o becyn cymorth llawer ehangach ar gyfer plant a'u rhieni. Mae hyn yn cynnwys ymgyrch *Magu Plant. Rhowch amser iddo* sy'n cynnig syniadau i annog ymddygiad da a dewisiadau eraill yn lle cosb gorfforol. Mae cymorth sydd wedi'i dargedu'n fwy penodol, trwy raglenni fel Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf hefyd yn cynnig cymorth a chyngor ar fagu plant, ochr yn ochr â gwasanaethau cyffredinol a ddarperir gan fydwragedd, ymwelwyr iechyd, meddygon teulu a Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd, er enghraifft.

I gael rhagor o wybodaeth am roi diwedd ar gosbi corfforol yng Nghymru, ewch i:llyw.cymru/StopioCosbiCorfforol neu cysylltwch â: StopioCosbiCorfforol@llyw.cymru